



Cafcass Cymru

**Gwella a Newid Diwylliannol
Mewn Perthynas â Cham-drin
Domestig**

**Datganiad Diweddaru:
Gorffennaf 2024**



Cafcass Cymru

Gwella a Newid Diwylliannol Mewn Perthynas â Cham-drin Domestig Datganiad Diweddarau: Gorffennaf 2024

Diben y datganiad hwn yw rhoi diweddariad ynghylch ymrwymiad parhaus a diwyro Cafcass Cymru i wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd sy'n oroeswyr/dioddefwyr cam-drin domestig, drwy ymarfer gwaith cymdeithasol medrus ac sy'n ystyriol o drawma mewn perthynas â cham-drin domestig.

Mae Cafcass Cymru yn darparu cyngor a chymorth arbenigol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn diogelu plant ac yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn llysoedd teulu ledled Cymru fel y caiff penderfyniadau eu gwneud er eu lles pennaf. Mae cam-drin domestig yn codi'n sylweddol ym mhob agwedd ar ein gwaith ac rydym yn cydnabod bod angen gwelliant pellach yn y maes hwn. Drwy ein proses cau achosion, gall Cafcass Cymru adrodd bod cam-drin domestig wedi bod yn nodwedd i 71% o blant dros y tair blynedd diwethaf yn olynol lle gwnaed cais cyfraith gyhoeddus o dan adran 31.

O ran achosion cyfraith teulu breifat, y rhai sy'n ymwneud â cheisiadau am Drefniadau Plant, mae [Adroddiad Panel Niwed y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#), 'Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020, a'r pwyntiau yn yr Adolygiad Llenyddiaeth cysylltiedig yn nodi bod cam-drin domestig yn nodwedd mewn rhwng 49% a 62% o achosion cyfraith breifat, yn ôl astudiaethau academaidd gwahanol. Yn nes ymlaen yn 2024 bydd Cafcass Cymru yn cyflwyno proses cau achosion a bydd hyn yn ein galluogi i adrodd yn fwy cywir ar ba mor gyffredin yw cam-drin domestig i'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw o fewn yr ardaloedd Braenaru.

Mae Cafcass Cymru yn gweld ac yn cydnabod pa mor gyffredin a threiddiol yw cam-drin domestig, yn enwedig yng nghyd-destun cyfiawnder teuluol a'r effaith ar blant, fel y dangosir yng nghanfyddiadau adroddiad y '*Panel Niwed*'. Croesawodd Cafcass Cymru'r adroddiad a daflodd oleuni ar y newidiadau sydd eu hangen yn y system cyfiawnder teuluol er mwyn diogelu ac amddiffyn oedolion a phlant sydd wedi goroesi a/neu sy'n dioddef cam-drin domestig yn well.

Ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae Cafcass Cymru wedi dechrau rhaglen o newid diwylliannol, sy'n canolbwyntio ar ymarfer gwaith cymdeithasol wrth weithio gyda dioddefwyr-goroeswyr, gyda'r nod o wella eu profiad o'n gwasanaeth, wrth nodi ymddygiad cyflawnwyr a'r effaith ar blant ac oedolion nad ydynt wedi cyflawni, a mynd i'r afael â hyn.

Er bod Cafcass Cymru wedi gwneud cryn gynnydd mewn perthynas â'r ymrwymiad a wnaeth ar ôl i adroddiad y '*Panel Niwed*' gael ei gyhoeddi, mae mwy i'w wneud i sicrhau bod ein hymyriadau a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu yn fedrus wrth

ymdrin â cham-drin domestig. Bydd Cafcass Cymru yn parhau i ryngweithio ac ymgysylltu â'r agendâu polisi Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ar lefel Cymru a'r DU. Byddwn yn achub ar bob cyfle i ddangos ein hymrwymiad i wrando ar y rhai sydd â phrofiad bywyd ac ysgogi newid diwylliannol. Rydym yn gwneud hyn drwy adborth, canmoliaeth a chwynion, sydd wedi bod yn ffordd o sicrhau bod Cafcass Cymru yn cael ei ddwyn i gyfrif erioed ac yn elfen hanfodol er mwyn newid a datblygu ymarfer.

Drwy ein secondai o Cymorth i Ferched Cymru a'r Cynghorydd Cenedlaethol ar Gam-drin Domestig, bydd Cafcass Cymru yn ymgysylltu â'r panel goroeswyr, yn unol â'r cylch gorchwyl, er mwyn ceisio adborth a safbwyntiau ar ein canllawiau diwygiedig ar gyfer cam-drin domestig a'r dogfennau ategol.

Gwaith parhaus gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â diwygio cyfiawnder teuluol, gan ganolbwyntio ar ymyriadau i gyflawnwyr, eiriolwyr cyfiawnder teuluol yn erbyn cam-drin domestig a rhoi'r dull 'Braenaru' ar waith yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn, mae Cafcass Cymru wedi:

Trefnu secondiad gyda Cymorth i Ferched Cymru ar gyfer 'Rheolwr Newid – Adroddiad y Panel Niwed' sydd wedi bod ar waith ers dechrau 2021. O ganlyniad i hyn, ceir gwell cydgysylltiad rhwng Cafcass Cymru a'r sector cam-drin domestig arbenigol ac mae Cafcass Cymru yn cael ei ddwyn i gyfrif. Mae'r rôl yn helpu Cafcass Cymru i sicrhau bod canllawiau mewnol a chyhoeddiadau yn ystyriol o gam-drin domestig ac yn helpu i ymgorffori newid diwylliannol yn arferion pob dydd y sefydliad.

Sicrhau dau gynllun peilot cenedlaethol a ariennir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder – un yng Ngogledd Cymru o fis Chwefror 2022 ac un yn Neddwyrain Cymru o fis Ebrill 2024 (a gaiff ei gynnal ar yr un pryd â chynlluniau yn Birmingham a Dorset). Mae gan gynlluniau peilot y Llys Cam-drin Domestig Ymchwiliol, y cyfeirir atynt yn fwy cyffredin fel y cynlluniau 'Braenaru', bum prif nod, sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch a rheoli risg i'r rhai mwyaf agored i niwed ym maes cyfiawnder teuluol. Yr hyn sy'n holl bwysig i'r dull gweithredu 'Braenaru' yw ymgysylltu'n gynnar â gwasanaethau cam-drin domestig. Gyda Cafcass Cymru yn cyfeirio at wasanaethau Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig drwy ddull 'Braenaru' pwrpasol, gan sicrhau bod dioddefwyr-goroeswyr yn gallu cael gafaél ar gymorth cynnar a bod y llys yn cael gwybod am risg ac effaith. Dull gweithredu system gyfan pwysig er mwyn rheoli cam-drin domestig mewn achosion teuluol yn well, y mae Cafcass Cymru yn ei groesawu ac yn ei gefnogi'n llawn.

Ffurio rhan o'r panel i recriwtio gwasanaethau Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig fel rhan o geisiadau am gyllid y cynllun 'Braenaru'.

Parhau i fod yn bresennol ac yn weladwy yn ffrydiau gwaith traws-sector Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau i gyflawnwyr a'r ffrydiau gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc ac mae'n gofyn am waith agos gyda'r Panel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr a'r Cynghorwyr Cenedlaethol ar Gam-drin Domestig.

Bod yn rhan o ffrydiau gwaith cyfiawnder teuluol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mewn perthynas â cham-drin domestig – adolygiad o'r rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni, darpariaeth i gyflawnwyr, eiriolwyr cyfiawnder teuluol yn erbyn cam-drin domestig.

Llwyddodd Cafcass Cymru i sicrhau hyfforddiant cyflwyniadol gan y 'Safe & Together Institute' a gydnabyddir yn rhyngwladol, a roddodd hyfforddiant cyflwyniadol ar draws y sefydliad i holl weithwyr cymdeithasol Cafcass Cymru. Mae'r dull hwn o hyfforddi ein staff wedi cael ei gymeradwyo gan Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig a Phrif Swyddog Gweithredol Cymorth i Ferched Cymru.

Gan gefnogi prosiect ymchwil y Comisiynydd Cam-drin Domestig, mewn ymateb i argymhelliad y 'Panel Niwed', rhoddwyd cyfrifoldeb i swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig am sefydlu dull adrodd ac adolygu ar gyfer y llys teulu (FCRRM). Gwnaeth y Comisiynydd Cam-drin Domestig a'r Comisiynydd Dioddefwyr gomisiynu'r gwaith o ddylunio cynllun peilot ar gyfer yr FCRRM..

Mae Cafcass Cymru yn cefnogi Is-grŵp y Cyngor Cyfiawnder Teuluol mewn perthynas â cham-drin domestig.

Safe & Together Institute – Gwybodaeth Bellach:

Dros bedwar diwrnod ym mis Mawrth 2024, rhoddodd y Safe & Together Institute Hyfforddiant Craidd Safe & Together (S&T) i 34 o aelodau o staff Cafcass Cymru, gan gynrychioli pum maes gweithredol. Nod cyffredinol y model yw:

Mynd i'r afael ag arferion cam-drin domestig dinistriol drwy ddarparu cyfres o egwyddorion ac elfennau a all arwain ymarfer sy'n ystyriol o gam-drin domestig. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Cadw'r plentyn yn ddiogel a gyda'r rhiant nad yw wedi troseddu, os yw'n ddiogel gwneud hynny.
2. Gweithio mewn partneriaeth (sy'n golygu deall cryfderau ac yn nodi elfennau cadarnhaol dulliau magu plant amddiffynnol) â'r rhiant nad yw wedi troseddu fel y sefyllfa ddiodyn; a
3. Cynnal ymyriadau gyda'r cyflawnwr er mwyn lleihau risg a niwed i'r plentyn.

Er mwyn profi effaith ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant, gwnaeth Cafcass Cymru wahodd dau ymarferydd o Cymorth i Ferched Cymru i ymuno â'r hyfforddiant, yr oedd secondai Cafcass Cymru o Cymorth i Ferched Cymru yn bresennol ynddo hefyd.

Cafwyd gwerthusiad llwyddiannus o'r hyfforddiant gan fod ein ymarferwyr a'n cydweithwyr o'r sector arbenigol yn teimlo bod y model yn helpu i newid y sgwrs ynghylch y ffordd y mae ymarferwyr yn gweithio gyda theuluoedd y mae ymddygiadau cyflawnwyr cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Cefnogir hyn gan gyfres o adnoddau ac ymyriadau a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd â'r nod o helpu gweithwyr lles plant proffesiynol i fod yn ystyriol o gam-drin domestig. Roedd ein staff yn teimlo y gall yr ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth helpu i wella cymwyseddu a chydweithio ar draws y system.

Mae Cafcass Cymru yn gweld yr effaith gadarnhaol ar ymarfer y rhai sydd wedi derbyn yr hyfforddiant craidd gan yr S&T Institute. Rydym yn gweld yr iaith hon sy'n canolbwyntio ar y cyflawnwr mewn adroddiadau gan llysoedd, sy'n nodi ymddygiad y cyflawnwr yn glir ac yn rhoi gwybod i'r llys am yr effaith ar y plentyn a'r rhiant nad yw wedi cyflawni. Yn ôl adborth gan ymarferwyr Cafcass Cymru sydd wedi cael hyfforddiant S&T ac sydd wedi defnyddio'r dull gweithredu hwn, mae'r model yn cefnogi proses asesu risg ac effaith glir ymddygiadau cyflawnwyr, sy'n golygu bod adroddiadau ac argymhellion llysoedd yn fwy clir a chadarn.

Yn allanol, mae defnydd o'r model yn cael ei gydnabod, gydag adborth barnwrol cadarnhaol diweddar ar ymyriad Cafcass Cymru gyda phlentyn a rhiant nad yw wedi cyflawni, drwy'r model S&T. Roedd yr iaith glir yn fuddiol i'r llys gan ei bod yn nodi patrymau cam-drin y cyflawnwr, gan gynnwys y defnydd parhaus o'r system llysoedd er mwyn rheoli'r plentyn a'r fam. Gwnaeth y model a'r iaith a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad arwain yn glir at ganlyniad diogel i'r plentyn, gan gyflawni'r amcanion

cyffredinol o ran rhoi profiad gwell o'n gwasanaeth i'r bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed.

Yn fewnol, mae digon o dystiolaeth ar y cam cynnar hwn hyd yn oed i ddangos yr effaith gadarnhaol y mae'r hyfforddiant hwn wedi'i chael. Fy nadansoddiad i yw bod y model S&T yn diwallu anghenion hyfforddiant y sefydliad mewn perthynas â gwella ymarfer sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a bydd yn sicrhau y defnyddir dull gweithredu safonol ar draws y sefydliad cyfan wrth ymateb i gam-drin domestig ac ysgrifennu amdano yn ein gwaith.

Mae'r dull gweithredu yn cynnig iaith gyffredin a chyfres o adnoddau safonol, gan ganolbwyntio'n gadarn ar ymddygiad y cyflawnwr a chryfderau'r rhiant nad yw wedi cyflawni, gyda ffocws clir ar yr effaith ar y plentyn.

Erbyn dechrau haf 2025, bydd Cafcass Cymru wedi darparu hyfforddiant y Safe & Together Institute ar y Model Craidd i bob un o'i gydweithwyr ymarfer gwaith cymdeithasol.

Mae Prif Weithredwr Cafcass Cymru, ynghyd â'r Dirprwy Brif Weithredwr, yn ymrwymedig i gael dull gweithredu cyson ac o ansawdd uchel ar gyfer y ffordd y caiff cam-drin domestig ac ymddygiad cyflawnwyr eu rheoli a'u cofnodi gan Cafcass Cymru. Gwnaed ymrwymiad ariannol er mwyn sicrhau hyn.

Beth Altman

**Arweinydd Strategol ar gyfer Cam-drin Domestig a Diogelu
Gorffennaf 2024**